Fersiwn Hawdd ei Deall

# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd Dysgu




**Nodiadau o'r cyfarfod cyntaf ar 11 Mai 2022. Roedd y cyfarfod ar Zoom.**



## Pobl a ddaeth i'r cyfarfod

- **Sioned Williams AS** - Aelod o'r Senedd, Cadeirydd
- **Mark Isherwood AS** - Aelod o'r Senedd
- **Heledd Fychan AS** - Aelod o'r Senedd
- **Samantha Williams** - Anabledd Dysgu Cymru, Ysgrifennydd
- **Zoe Richards** - Anabledd Dysgu Cymru
- **Grace Krause** - Anabledd Dysgu Cymru
- **Wayne Crocker** – Mencap Cymru
- **Joe Powell** - Pobl yn Gyntaf Cymru
- **Kelly Stuart** - Pobl yn Gyntaf Cymru
- **Sara Pickard** – Mencap Cymru
- **Paul Hunt** – Mencap Cymru
- **Julian Hallet** - Cymdeithas Syndrom Down
- **Kirsty Rees**
- **Ryland Doyle**



## Pobl a ddywedodd nad oeddwn nhw'n gallu dod i'r cyfarfod

- Mandy Powell – Cymorth Cymru
- Kate Young – Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan
- Mike Hedges AS – Aelod o'r Senedd
- Rhun ap Iorwerth AS – Aelod o'r Senedd

## Gwybodaeth am y ddogfen yma




Fersiwn hawdd ei deall yw'r daflen yma. Mae'r geiriau a'r hyn maen nhw'n ei feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.



Gallai'r geiriau mewn **ysgrifen las trwm** fod yn anodd eu deall. Mae eglurhad o'r geiriau mewn bocs o dan y gair. Gallwch chi weld beth yw ystyr yr holl eiriau **glas** ar **dudalen 9**.

# 1. Croeso a chyflwyniadau



Croesawodd Zoe o Anabledd Dysgu Cymru bawb i'r cyfarfod.



Esboniodd Zoe fod grŵp o sefydliadau wedi penderfynu dechrau'r Grŵp Trawsbleidiol hwn ar gyfer Anabledd Dysgu.

Maen nhw am i'r grŵp edrych ar y problemau y mae pobl ag anabledd dysgu yng Nghymru'n eu hwynebu yn eu bywydau.

Dyma’r sefydliadau wnaeth benderfynu dechrau'r grŵp:

- ☐ Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan
- ☐ Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan
- ☐ Cymorth Cymru
- ☐ Cymdeithas Syndrom Down
- ☐ Anabledd Dysgu Cymru
- ☐ Mencap Cymru



Dywedodd Wayne o Mencap Cymru fod gan Loegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon grwpiau trawsbleidiol ar anabledd dysgu yn barod.

Mae'n dda iawn bod gan Gymru grŵp erbyn hyn hefyd.

## 2. Pleidleisio dros ysgrifennydd y grŵp




Gofynnodd Zoe a oedd y grŵp eisiau pleidleisio dros Samantha Williams o Anabledd Dysgu Cymru i fod yn **ysgrifennydd** y grŵp.

Yr **ysgrifennydd** yw'r person neu'r sefydliad sy'n gyfrifol am drefnu'r grŵp. Er enghraifft, trefnu cyfarfodydd ac anfon agendâu.

Pleidleisiodd y grŵp dros Samantha.

## 3. Pleidleisio dros Gadeirydd y grŵp



Gofynnodd Samantha i'r grŵp a oedden nhw am bleidleisio dros yr Aelod o'r Senedd Sioned Williams i fod yn **Gadeirydd** y grŵp.

**Cadeirydd** y grŵp yw'r person sy'n arwain y cyfarfodydd.

Pleidleisiodd y grŵp dros Sioned.

## 4. Pam dechreuon ni'r grŵp yma



Rhoddodd Joe o sefydliad Pobl yn Gyntaf Cymru gyflwyniad am ein rhesymau dros ddechrau'r grŵp yma a beth rydyn ni'n gobeithio ei wneud.



Dywedodd Joe fod llawer o bethau sy'n effeithio ar bobl ag anabledd dysgu mewn ffyrdd gwahanol i bobl eraill. Mae hyn yn cynnwys pobl anabl eraill.

Soniodd Joe am rai o'r problemau i bobl ag anabledd dysgu yng Nghymru:




- **Iechyd** Yn aml, mae gan bobl sydd ag anabledd dysgu iechyd gwaeth na phobl eraill. Weithiau nid ydyn nhw'n cael eu trin yn deg neu'n iawn gan wasanaethau iechyd.



- **Tai** Weithiau, mae pobl ag anabledd dysgu yn cael eu hanfon i fyw yn bell o'u teulu, eu ffrindiau a'u cymuned. Weithiau maen nhw hefyd yn cael eu hanfon i fyw mewn ysbytai.



- **Rhieni a gofalwyr**. Mae angen i rieni a gofalwyr pobl sydd ag anableddau dysgu gael y gefnogaeth gywir hefyd.



- **Arferion cyfyngol**. Mae'r term yma yn cael ei ddefnyddio weithiau gan bobl sy'n gweithio gyda phobl sydd ag anabledd dysgu neu'n gofalu amdanyn nhw.

**Arferion cyfyngol** yw pan mae pobl yn ceisio rheoli eich ymddygiad chi drwy eich rhwystro chi rhag gwneud pethau. Mae hyn yn gallu cynnwys pethau fel eich dal chi i lawr. Neu eich rhoi chi mewn ystafell ar eich pen eich hun.

Mae **Arferion cyfyngol** yn gallu gwneud i chi deimlo'n ofidus iawn.
Weithiau mae'n gallu brifo neu hyd yn oed ladd pobl.



- **Llais, dewis a rheolaeth**. Mae angen i bobl gydag anabledd dysgu allu siarad drostyn nhw eu hunain. Neu os na allan nhw siarad drostyn nhw eu hunain, mae angen **eiriolwr** i siarad ar eu rhan nhw.

Does dim digon o arian ar gyfer gwasanaethau **eiriolaeth** a **hunan-eiriolaeth** i bobl ag anabledd dysgu ledled Cymru.



Mae **eiriolwr** neu **eiriolaeth** yn golygu rhywun sy'n siarad ar ran rhywun arall. Er enghraifft, am hawliau neu beth sydd ei angen ar y person.

Mae **hunan-eiriolaeth** yn golygu codi llais am beth sy'n bwysig i chi.

# 5. Cyfarfodydd yn y dyfodol



Siaradodd y grŵp am:

- pa mor aml maen nhw am gyfarfod
- pryd maen nhw am gyfarfod
- ble maen nhw am gyfarfod
- beth maen nhw am siarad amdano mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.




Penderfynodd y grŵp gael o leiaf 4 cyfarfod bob blwyddyn.

Os bydd rhywbeth pwysig yn codi, efallai y bydd y grŵp yn cael cyfarfod ychwanegol i siarad amdano.



Penderfynodd y grŵp gynnal rhai o'r cyfarfodydd ar-lein.

Dywedon nhw hefyd y bydden nhw'n hoffi cael o leiaf 1 cyfarfod **nad yw'n** cael ei gynnal ar-lein fel bod pobl yn gallu cwrdd wyneb yn wyneb.



Penderfynodd y grŵp y byddai cyfarfodydd yn agored i bawb yn y dyfodol.



Bydd o leiaf hanner y bobl sy'n rhoi cyflwyniadau mewn cyfarfodydd yn bobl ag anabledd dysgu.



Cytunodd y grŵp y byddan nhw'n siarad am iechyd yn y cyfarfod nesaf.



Bydd y grŵp yn gofyn i bobl sydd ag anabledd dysgu beth arall maen nhw eisiau i'r grŵp siarad amdano mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

# Geiriau anodd

**Eiriolwr** neu **eiriolaeth**

Mae eiriolwr neu eiriolaeth yn golygu rhywun sy'n siarad ar ran rhywun arall. Er enghraifft, am hawliau neu beth sydd ei angen ar y person.

**Cadeirydd**

Cadeirydd y grŵp yw'r person sy'n arwain y cyfarfodydd.

**Arferion cyfyngol**

Arferion cyfyngol yw pan mae pobl yn ceisio rheoli eich ymddygiad chi drwy eich rhwystro chi rhag gwneud pethau. Mae hyn yn gallu cynnwys pethau fel eich dal chi i lawr. Neu eich rhoi chi mewn ystafell ar eich pen eich hun.

**Ysgrifennydd**

Yr ysgrifennydd yw'r person neu'r sefydliad sy'n gyfrifol am drefnu'r grŵp. Er enghraifft, trefnu cyfarfodydd ac anfon agendâu.

**Hunan-eiriolaeth**

Mae hunan-eiriolaeth yn golygu codi llais am bethau sy'n bwysig i chi.